"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Wener**, 13eg Gorffennaf, 2020, a gynhaliwyd drwy 'zoom' o 7.50 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Glyn Roberts, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Michael Strain, Ifor Owen
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

## 7. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd am y fraint o gael ei phenodi i'r swydd.

## 8. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni ddatganwyd buddiant personol mewn unrhyw eitem

## 9. CADARNHAU COFNODION

**Cyflwynwyd** a chadarnhawyd y cofnodion y Cyngor 19eg Mehefin, 2020. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones.

### MATERION YN CODI

### Eitem 101 – Materion Ffyrdd a Llwybrau (tudalen 2)

(1) **Adroddodd** y Clarc nad oedd wedi gofyn i Mr. J.A. Pozzi farbio'r tir y cyfeiriwyd ato yn y cofnod gan nad oedd yn hollol sicr at pa dir y cyfeiriwyd ato. Dywedodd Y Cynghorydd Glyn Roberts ei fod ef, wrth farbio tir yr Ganolfan, wedi twtio y rhan o'r tir ger yr afon.

(2) **Adroddodd** y Clarc iddi dderbyn e-bost gan yr Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, ar 28ain Gorffennaf, 2020, fod y ffordd o Bwllmaen i Graig Ewig, Bryncroes "wedi derbyn sylw fel rhan o'r rhaglen waith clytio. Fe effeithiodd Covid 19 ar gynnydd arferol rhaglenni gwaith y Swyddfa Ardal yn ystod y cyfnod clo (lockdown). Fe ail gychwynwyd gwaith clytio gwledig fel un o'r gweithgareddau cyntaf ar ryddhau'r cyfnod clo ar 25/07/2020 ac fe ymgymerwyd â'r gwaith dan sylw fel rhan o'r rhaglen adfer ffyrdd yma yn Ardal Dwyfor. Byddwch yn falch o glywed fod y rhaglen waith adfer yma yn parhau ar hyn o bryd."

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth a diolch i'r Cynghorydd Glyn Roberts.

## 10. CEISIADAU CYNLLUNIO

**Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:**

(a) Cais C20/0495/32/LL – newid defnydd cyn Swyddfa Bost i ddefnydd preswyl i'w gynnwys fel rhan o annedd presennol – Swyddfa'r Post Cyf., Llys Brodyr, Botwnnog
(b) C20/0369/32/LL – gosod modiwl cegin fasnachol yng Nghanolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog.
(c) Cais C20/0488/32/DT – codi estyniad llawr cyntaf yn Hen Odyn, Nanhoron.
(d) Ymgynghoriad cyn cais Cynllunio – codi sied ieir yng Nghrugeran, Sarn.

**Penderfynwyd**

**(1)** Cefnogi'r ddau gais o nodir yn (a) a (b) uchod.
**(2)** Gwrthwynebu cais o dan gymal (c) uchod gan nad yw'r datblygiad arfaethedig yn gweddu i gymeriad yr ardal.
**(3)** Aros i dderbyn cais cynllunio yn (d) uchod gan nodi y bydd y rhai sydd yn byw yn gyfagos i'r datblygiad wedi derbyn yr un llythyr a chyfle i ddatgan eu barn yn barod.

## 11. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

**Penderfynwyd** anfon at yr Adran Prifyrdd, Cyngor Gwynedd, i holi pryd maent yn bwriadu torri gwrychoedd eleni gan dynnu sylw yn arbennig at y ffordd o Eglwys Sarn Mellteyrn i Beudy Bigyn ac hefyd o Saithbont i Fotwnnog.

Yn y cyswllt yma, cyfeiriwyd fod pobl sy'n cerdded ar y hyd y ffordd ger Mynwent Llandegwnning yn taflu baw ci drosodd i gae Ty'n Llan. Dywedodd y Clarc fod perchennog Ty'n Llan wedi bod mewn cysylltiad ychydig wythnosau yn ôl yn dweud fod rhywrai yn taflu hen flodau a photiau gwydr drosodd i'w cae ac i hyn ddigwydd nifer o weithiau ond na ddywedodd ddim ond eu clirio yn ddistaw. Trafododd y Clarc y mater gyda'r Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd ar y pryd) ac mae'r aelod wedi bod yn garedig iawn yn mynd a bin i'r fynwent ar gyfer y gwastraff yma a gwnaiff gadw golwg a'i gawgio fel bo'r angen.

**Diolchwyd** i'r Cynghorydd Glyn Roberts am ei barodrwydd i gynorthwyo.

## 12. MATERION IECHYD

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

## 13. CESIDIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL

**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn i'r cyfarfod a phenderfynwyd cyfrannu'r symiau a nodir:

| | |
|---|---|
| Ambiwlans Awyr Cymru | £100 (siec 200700) |
| Cylch Meithrin Bryncroes | £100 (siec 200702) |
| Grwp Mynediad Dwyfor | £ 70 (siec 200701) |
| Hosibis Dewi Sant | £ 50 (siec 200703) |
| Hosbis Ty Gobaith | £ 50 (siec 200704) |

14. **AWDURDOD I DALU**

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.

15. **HAWLIAU MIS AWST**

**Gan fod** y Cyngor wedi methu cyfarfod yn ystod y misoedd cyntaf o'r cyfnod clo, **penderfynwyd** cynnal cyfarfod drwy gyfrwng 'zoom' ar 10fed Awst, 2020, a pheidio cymryd mis o seibiant.

16. **CYFYNGIAD/BARN**

**Cyflwynwyd** llythyr gan Brif Weithredwr, Cyngor Gwynedd (copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen) yn gofyn am farn y Cyngor "am yr ymdeimlad cyffredinol o fewn eich ardal ynglyn a'r sefyllfa o gofio y bydd yna fwy o ymwelwyr yn dod i'r ardal."

Y teimlad oedd y dylid rhoddi posteri i fyny yn yr ardal i atgoffa pobl o'r cyfyngiadau sydd yn weithredol yma yng Nghymru, e.e. cadw pellter, golchi dwylo, gwisgo masgiau a.y. a nodi hefyd fod yr adnoddau iechyd yn brin iawn yma yng nghefn gwlad ac felly fod angen i bawb fod yn wyliadwrus.

**Penderfynwyd** fod cyfarfod nesaf o'r Cyngor i drafod y llythyr unwaith yn rhagor.

17. **PRYNU/PLANNU BYLBIAU**

**Dywedodd** Y Cynghorydd Gareth Williams iddo gael cais gan un o drigolion yr ardal am gael plannu cennin pedr ar ochr y ffordd o Crugeran i lawr am bentref Y Sarn. Cynigiodd y trethdalwr brynu 100 ohonynt fel rhodd a dywedodd Y Cynghorydd Gareth Williams y byddai yntau'n cyfrannu 100. Gofynnodd a fyddai'r Cyngor yn barod i brynu bylbiau a thalu am eu plannu.
Awgrymwyd y dylai bylbiau gael eu plannu hefyd ym mhentref Botwnnog a Bryncroes.
O berthynas i'r plannu awgrymwyd y byddai gofyn i aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Y Rhiw ymgymryd a'r gwaith neu efallai gallai'r Ysgol fod yn rhan o hyn.
Dywedodd y Clarc ei bod wedi bod yn ymchwilio i fewn i'r canllawiau sydd ar gael at brosiect o'r fath a theimlai mai o dan yr adran "Well Being- Local Government (Wales) Measure 2011" y byddai'n syrthio lle mae'r y disgrifiad o'r pwrpas yn "power to incur expenditure to improve the economic social and environmental well-being of a community/town."

**Penderfynwyd** fod ymholiadau i'w gwneud faint fyddai'r gost a.y.